Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant
# &
# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod

---

**Cam-drin Ar-lein**

**Noddwyd gan Bethan Sayed AC a Mark Isherwood AC**
**Suzy Davies AC a Siân Gwenllian AC**
**3 Rhagfyr 2019**
**Tŷ Hywel**

***Yn bresennol*:**
*Bethan Sayed AC (Cadeirydd)*
*Delyth Jewell AC (Siaradwr)*
*Suzy Davies AC*
*Mark Isherwood AC*
*Siân Gwenllian AC*
*Helen Mary Jones AC*
*Gwendolyn Sterk Cymorth i Ferched Cymru (Siaradwr)*
*Catherine Fookes Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*
*Amy Jones Llywodraeth Cymru (Siaradwr)*
*Lesley Curtis – Hafan Cymru*
*Jordan Watkins – PPC Gwent*
*Charlotte Archibald – Annibynnol*
*Korina Tsioni – CGGC*
*Gemma Price – Annibynnol*
*Ele Hicks – Diverse Cymru*
*Sarah Thomas – Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched*
*Nancy Cavill – Staff Cymorth Julie Morgan AC*
*Lynne Tedik Soroptimist International, Cynrychiolydd Rhanbarth De Cymru*
*Yr Esgob June Osborne*
*Julie Richards SEEdS*

***Ymddiheuriadau:***
*Llyr Gruffydd AC*
*Y Cynghorydd Debbie Wilcox*
*Rachel Minto – Prifysgol Caerdydd*
*Eleri Cubbage – Cynulliad Merched Cymru*
*Chrissie Nichols – Free Range Consulting*
*Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*
*Rhian Connick - Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| Cofnodion |
|---|
| Croesawodd Bethan Sayed AC, cadeirydd y cyfarfod, y rhai a oedd yn bresennol.<br><br>• Anogodd Bethan Sayed AC bawb i hysbysebu a mynychu'r sgwrs a’r sesiwn holi ac ateb gyda Sally a David Challen ym mis Ionawr a phwysleisiodd pa mor bwysig fydd y digwyddiad wrth godi ymwybyddiaeth ynghylch rheolaeth drwy orfodaeth.<br><br>• Rhoddodd Bethan Sayed AC sylw i Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl a'r e-bost a anfonwyd at Aelodau’r Cynulliad sy'n cynnwys adroddiad Cymorth i Ferched Cymru ac Anabledd Cymru, a lansiwyd yn wreiddiol ym mis Mai. Mae hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer y llywodraeth, yr heddlu a chyrff statudol. |
| **Cam-drin ar-lein yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru)**<br>• Soniodd am y nifer annerbyniol o Aelodau Seneddol benywaidd a ymddiswyddodd yn y cyfnod cyn yr etholiad yn sgil y cam-drin ar-lein y maent wedi'i ddioddef.<br>• Siaradodd am effeithiolrwydd yr ymgyrch 'Her Net Her Rights' gan Lobi Menywod Ewrop.<br>• Mae cam-drin ar-lein yn fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae'n croestorri â hiliaeth, rhywiaeth a homoffobia.<br>• Nid yw cam-drin ar-lein yn dod i ben ar-lein. Gall cam-drin ar-lein fod yn angheuol. Soniodd am sut dioddefodd Jo Cox gamdriniaeth ar-lein yn ystod y cyfnod cyn ei llofruddiaeth.<br>• Mae cam-drin yn rhwystro menywod ifanc rhag bod eisiau cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus ac mae’r cam-drin yn dechrau pan maent yn ifanc.<br>• Mae cam-drin ar-lein yn defnyddio offer amrywiol yn gyson i dargedu menywod yn eu bywydau ar-lein a’u bywydau tu hwnt i hynny. Mae gosodiadau diofyn ar ddyfeisiau clyfar, sy’n eu galluogi i wrando o ystafelloedd eraill neu reoli dyfeisiau electronig, yn galluogi cyflawnwyr i gael mynediad a rheolaeth gyson hyd yn oed os ydynt wedi gadael y cartref. Gall bancio ar-lein hefyd gynorthwyo cam-drin gan ei bod yn anodd iawn newid cyfrineiriau ac enwau ar gyfrifon deuol.<br>• Tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng “bod yn ddiogel ar-lein a diogelwch ar-lein”. Dylem ddefnyddio offer fel cyfrineiriau gwarchodedig ar-lein i helpu i leihau camdriniaeth, *ond* mae diogelwch ar-lein yn ymwneud â dwyn cyflawnwyr i gyfrif a sicrhau bod yna fannau diogel a chyfartal lle gall menywod fodoli ar-lein.<br>• Nododd bod angen i ni ddechrau gyda’r egwyddor bod gan fenywod hawl i fod ar-lein a chael eu lleisiau wedi'u clywed ar-lein.<br>• Nid yw’r ymateb i gam-drin ar-lein yn ddigonol, ac mae'r baich ar y dioddefwr i gasglu tystiolaeth a throsglwyddo ei ddyfeisiau - nid yw hyn yn dderbyniol ac, mewn llawer o |

amgylchiadau, nid yw'n briodol nac yn bosibl.

- Argymhellion:
  - Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ei ymrwymiad i Gonfensiwn Istanbul a'r offer sydd ganddi i'w weithredu. Mae yna nifer o erthyglau a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â cham-drin ar-lein, er enghraifft trais seicolegol, stelcio ac aflonyddu.
  - Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod cam-drin ar-lein yn ei Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
  -Pan gaiff cam-drin ar-lein ei gynnwys mewn addysg, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth ar sail rhywedd ac yn cychwyn mewn ffordd sy'n grymuso menywod a merched.
  - Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ystyried dwyn cwmnïau technoleg i gyfrif am gam-drin ar-lein ar eu gwefannau.

**Camdriniaeth ar-lein yn erbyn menywod mewn swydd gyhoeddus (Delyth Jewell AC)**

- Yn 2018, cyn ymuno â bywyd cyhoeddus, cynhaliodd Delyth astudiaeth ar gyfer Sefydliad San Steffan ar Drais yn erbyn Menywod.
- Pwysleisiodd bwynt Gwendolyn nad yw cam-drin ar-lein yn digwydd ar ei ben ei hun, ac yn aml dim ond un agwedd ar y darlun cyfan yw'r cam-drin sy'n digwydd ar-lein.
- Soniodd yn fras am fanteision ac anfanteision y cyfryngau cymdeithasol a'r gallu i roi platfform i unrhyw un ddweud unrhyw beth. Problemau gyda chyfrifon anhysbys (yn enwedig ar Twitter) yn cyflawni cam-drin ar-lein.
- Yr angen i edrych ar gam-drin ar-lein mewn addysg a chael sgyrsiau mwy gonest am y dolur a achosir gan y sylwadau hyn, sut mae menywod yn cael eu gweld, y ffyrdd y siaredir am fenywod mewn bywyd cyhoeddus a sut mae'r mater hwn yn seiliedig ar rywedd ac na fyddai llawer o'r sylwadau hyn yn cael eu gwneud i ddynion neu am ddynion.
- Mae cam-drin ar-lein yn seiliedig ar ryw, ac mae rhai geiriau'n cael eu defnyddio mewn ffordd rywiol i gam-drin menywod.
- Yn ystod ei gwaith ymchwil blaenorol, cafodd Delyth ei synnu gan ba mor aml y mae menywod mewn bywyd cyhoeddus yn derbyn bygythiadau treisio. Nid yw bygythiadau treisio o'r fath yn seiliedig ar chwant rhywiol. Maen nhw'n fath o bŵer ac maen nhw'n ceisio tawelu menywod, gan ddweud y dylech chi wybod eich lle. Mae angen i ni feddwl am sut rydyn ni'n addysgu pobl ifanc am gydsyniad a pharch.
- Mae menywod mewn bywyd cyhoeddus yn rhwystredig ynghylch y cyngor a roddir iddynt yn aml ynghylch cyfyngu ar eu hymddygiad ar-lein i 'gadw eu hunain yn ddiogel'. Mae hyn yn rhoi'r baich ar fenywod, nid ar y cyflawnwyr. Siaradodd am sut mae hyn wedi effeithio ar sut mae hi ei hunan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sut mae'n rhaid iddi 'baratoi ar gyfer sylwadau o ryw fath' os bydd yn trydar am rai pynciau. Mae angen i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol deimlo mwy o orfodaeth i ddileu sylwadau ymosodol.

- Ni allwn ganiatáu i genhedlaeth o fenywod ifanc beidio â byw bywyd yn llygad y cyhoedd oherwydd hyn.
- Mae angen mynd i'r afael â'r ffordd y siaredir am fenywod yn y cyfryngau. Rydym wedi cael ein harwain i gredu bod siarad am bryd a gwedd menyw yn ddigon teg. 'Mae yna ddiffyg cysylltiad rhwng sut rydyn ni'n siarad am fenywod a sut rydyn ni'n siarad am ddynion.
- Mae angen mwy o fenywod mewn bywyd cyhoeddus, ac mae bod yn yr ystafell lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn helpu.

**Ymgyrch Llywodraeth Cymru dros bobl ifanc a defnyddio technoleg (Amy Jones, Llywodraeth Cymru)**

- Lansiwyd ymgyrch 'Nid cariad yw hyn, rheolaeth yw hyn' gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019. Nod yr ymgyrch oedd herio'r diwylliant ynghylch rheolaeth drwy orfodaeth a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'i natur lechwraidd. Nod yr ymgyrch oedd helpu pobl i adnabod ymddygiad rheolaethol, cydnabod mai camdriniaeth yw hyn a gwybod ei fod yn anghywir ac yn drosedd bellach. Nod arall yw helpu gwylwyr i adnabod a deall rheolaeth drwy orfodaeth yn y perthnasoedd o'u cwmpas. Roedd yr ymgyrch yn gweithredu fel "galwad i weithredu ynghylch y llinell gymorth Byw Heb Ofn".
- Roedd tri phrif ffocws i'r ymgyrch; bychanu pryd a gwedd rhywun, monitro a rheoli arian, cyfyngu perthnasoedd â phobl eraill ac felly ynysu rhywun.
- Mae'r ymgyrch wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn - bu cynnydd mewn riportio rheolaeth drwy orfodaeth ledled Cymru ac mae nifer y galwadau i'r llinell gymorth ar y mater hwn hefyd wedi cynyddu. Cofnodwyd 17,500 o achosion rheolaeth drwy orfodaeth ledled Cymru a Lloegr.
- Fe wnaeth Llywodraeth Cymru arallgyfeirio'r ymgyrch yn ei hail gyfnod, gan dynnu sylw at bobl ag anghenion ychwanegol a'r rheini o gefndiroedd BME, pobl ifanc a thrais rhywiol.
- Lansiwyd yr hashnod #dywhynddimyniawn yn ystod Wythnos y Glas gan dargedu pobl ifanc gyda chefnogaeth gan brifysgolion ledled Cymru. Roedd ffocws ar gyfleuster sgwrsio ar-lein y llinell gymorth.
- Mae gan 80% o bobl ifanc yn y DU fynediad at y cyfryngau cymdeithasol neu blatfform digidol bob dydd ac maent yn treulio, ar gyfartaledd, 35 awr yr wythnos ar-lein.

**Trafodaeth:**
Sylwadau gan y gynulleidfa
-Dylai fod cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig yng Nghymru i gynorthwyo ac annog y menywod hynny nad oes ganddynt y modd, y cyfle na'r mynediad ar gyfer cael swydd gyhoeddus ar hyn o bryd.

| |
|---|
| -Mae angen i Lywodraeth Cymru ehangu'r ymgyrch i dargedu pobl ifanc o dan 16 oed gan y bydd hefyd yn berthnasol i blant iau sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd y byddai hyn yn dod o fewn y cylch gwaith diogelu yn ogystal â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |
| **Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 13:30** |